❖ Yr Amlenni Coch

Deufis cyn y Nadolig
anfonwyd amlen ac arni eiriau coch
i filoedd lawer drwy'r wlad –
neges Gŵyl yr Adfent:
'Credwn mewn byw cyn marw.'
Nid digon dweud wrth blant y Trydydd Byd
bod bywyd yn eu haros sy'n llawer gwell
y tu hwnt i'r bedd.
Ni chafodd y newynog a dioddefwyr Aids
y fraint o fywyd llawn
cyn ymadael â'r byd hwn.
Diben yr Adfent yw ein paratoi
i gofio geni Crist,
yr Emanŵel –
Duw gyda ni.
Pa fodd y medrwn ni fod gyda Duw
os anwybyddwn
'un o'r rhain ei frodyr lleiaf'
sydd eisiau'r hawl i fyw cyn mynd o'r byd?